CIWB

Tasg 3

# Mynd i Ffrainc

1. Rydych chi'n mynd i drefnu taith tri diwrnod / dwy noson yn Ffrainc – yn Trie Sur Baïse efallai neu yn rhywle arall.



Mewn grŵp, rhaid i chi drefnu:

- **ble** byddwch chi'n mynd
- **sut** byddwch chi'n mynd
- **ble** byddwch chi'n **aros**
- **pryd** byddwch chi'n mynd – dyddiad ac amser
- **beth** fyddwch chi'n wneud yno.

Mae llawer o help i chi ar y dudalen nesaf. Dewiswch **rai** o'r patrymau– a phatrymau eraill rydych chi'n gwybod.

Hefyd ...
... mae gennych chi 800 ewro y person i wario.
Faint ydy 800 ewro mewn punnoedd?
Beth ydy'r raddfa orau rydych chi'n gallu ffeindio?

Bydd rhaid i chi chwilio'n ofalus am brisiau da!

Bydd rhaid i chi chwilio am wybodaeth ar y we:

- gwybodaeth am leoedd da
- gwybodaeth am sut i deithio – prisiau ac amserlenni.
- gwybodaeth am ble i aros – a'r prisiau.

Trafodwch hyn fel dosbarth i ddechrau.

Gwnewch fap meddwl. Defnyddiwch yr **Help** ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| taith | journey |
| diwrnod | day |
| noson | night |
| rhywle arall | somewhere else |
| aros | to stay |
| mae gennych chi ... =<br>mae ... gyda chi | you've got |
| y person | per person |
| gwario | to spend |
| graddfa | rate |
| gorau | best |
| gallu | can |
| lleoedd | places |
| amserlenni | timetables |

| Iaith trafod | |
|---|---|
| **Cyffredinol** (General) | |
| Beth am ...?<br>Syniad da (achos ....)<br>Na, dw i ddim yn meddwl (achos ...)<br>Yn fy marn i, ...<br>Dw i'n meddwl bod ... yn syniad da.<br>Mae hynny'n iawn.<br>Mae hynny'n wych.<br>Wyt ti'n cytuno?<br>Ydych chi'n cytuno?<br>Dw i'n cytuno (achos ...)<br>Dw i ddim cytuno (achos ...)<br>Dw i'n anghytuno (achos ...) | What / How about ...?<br>Good idea (because ...)<br>No, I don't think so (because ...)<br>In my opinion, ...<br>I think that ... is a good idea.<br>That's fine.<br>That's great.<br>Do you (sing.) agree?<br>Do you (pl.) agree?<br>I agree (because ...)<br>I don't agree (because ...)<br>I disagree (because ...) |
| **Ble: Cyffredinol + ...** | |
| Beth am fynd i ...?<br>Hoffwn i fynd i ...<br>Hoffet ti fynd i ...?<br>Hoffwn. / Na hoffwn.<br>Hoffech chi fynd i ...?<br>Hoffen. / Na hoffen. | What / How about going to ...?<br>I would like to go to ...<br>Would you (sing.) like to go to ...?<br>Yes (I would). / No (I wouldn't).<br>Would you (pl.) like to go to ...?<br>Yes (we would). / No (we wouldn't). |
| **Sut: Cyffredinol + ...** | |
| Beth am fynd ar y bws o ... i ...?<br>deithio mewn trên o ... i ...<br>ar y fferi o ... i ...<br>hedfan o ... i ...<br>Faint ydy pris ...?<br>Faint mae ... yn costio?<br>Mae ... yn rhesymol.<br>yn ddrud<br>yn rhy ddrud<br>yn rhad<br>yn amhosib<br>yn bosib | What / How about going by bus from ... to ...?<br>What / How about travelling by train from ... to ...?<br>ferry from ... to ...?<br>flying from ... to ...<br>What's the price of ...?<br>How much does ... cost?<br>... is reasonable.<br>expensive<br>too expensive<br>cheap<br>impossible<br>possible |
| **Aros: Cyffredinol + ...** | |
| Ble ydyn ni'n mynd i aros?<br>Ble byddwn ni'n aros?<br>Beth am aros mewn gwesty smart iawn?<br>mewn gwesty dwy seren<br>mewn llety gwely a brecwast<br>mewn hostel i bobl ifanc<br>mewn ysgol | Where are we going to stay?<br>Where will we stay?<br>What about staying in a very smart hotel?<br>in a two star hotel<br>in bed and breakfast accommodation<br>in a hostel for young people<br>in a school |
| **Pryd: Cyffredinol + ...** | |
| Pryd byddwn ni'n mynd?<br>Beth am ...?<br>Am faint o'r gloch byddwn ni'n mynd ...? | When will we go?<br>What about ...?<br>At what time will we go? |
| **Gwneud: Cyffredinol + ...** | |
| Beth fyddwn ni'n gwneud / gweld yno?<br>Beth hoffet ti wneud / weld?<br>Beth hoffech chi wneud? | What will we do / see there?<br>What would you (sing.) like to do / see?<br>What would you (pl.) like to do / see? |

2. Ar ôl gorffen, dwedwch wrth grŵp arall am eich taith.

3. Ysgrifennwch am daith grŵp arall isod.

   Taith Grŵp:

   I ble:

   Sut:

   Aros:

   Pryd:

   Gwneud:

   Barn:

4. Mae 5 lle gwag ar y daith, felly rydych chi'n mynd i ysgrifennu darn i geisio perswadio 5 person arall i ddod ar y daith.

   Ydych chi'n cofio sut i berswadio? Trafodwch hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch eich syniadau isod.

   Yna, ysgrifennwch y darn.

| Geirfa | |
|---|---|
| ar ôl | after |
| gorffen | to finish |
| isod | below |
| lle | place |
| gwag | empty |
| darn | piece |